# Cynllun diben ar gyfer cyflawni diben cyhoeddus y BBC: Hyrwyddo addysg a dysgu

## Diffiniad Ymddiriedolaeth y BBC o gylch gwaith y diben

Gallwch ddisgwyl i'r BBC helpu pawb yn y DU i ddysgu. Un swyddogaeth bwysig i'r BBC yw cefnogi addysg ffurfiol mewn ysgolion a cholegau. Hefyd, bydd y BBC yn cynnig ffyrdd deniadol i bawb yn y DU feithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau ar draws ystod eang o bynciau.

## Blaenoriaethau'r diben

Mae Ymddiriedolaeth y BBC, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, wedi rhannu'r cylch gwaith hwn yn dair blaenoriaeth benodol:

1 Ysgogi dysgu anffurfiol ar draws ystod lawn o bynciau a materion i bob cynulleidfa.
2 Denu cynulleidfaoedd at weithgareddau sydd wedi'u targedu i sicrhau canlyniadau penodol sydd o fudd i gymdeithas.
3 Hybu a chefnogi nodau addysgol ffurfiol i blant a phobl ifanc a chefnogi addysg oedolion, yn enwedig pan fydd honno'n gysylltiedig â datblygu sgiliau hanfodol.

## Perfformiad o'i gymharu â'r diben

I lawer o dalwyr ffi'r drwydded, dyma un o ddibenion cyhoeddus pwysicaf y BBC ac mae'n ganolog i gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

Mae cynulleidfaoedd o'r farn bod y BBC yn perfformio'n dda o ran ysgogi dysgu anffurfiol. Mae enw da rhaglenni ffeithiol y BBC yn gryf ar y cyfan ac maent yn cyrraedd cynulleidfaoedd eang ar draws llwyfannau a gwasanaethau. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd angen i'r BBC addasu ei darpariaeth yn y maes hwn er mwyn rhoi profiad mwy gwerthfawr fyth yn oes darpariaeth ar gais ac aml-lwyfan, gan roi cyfle i bobl addasu eu profiad o gynnwys ffeithiol sy'n cynyddu eu gwybodaeth i ddiwallu eu hanghenion personol.

Hefyd, nododd Arolwg Ymddiriedolaeth y BBC o Gylch Gwaith y Dibenion fwlch rhwng disgwyliadau'r gynulleidfa (yn enwedig talwyr ffi'r drwydded â phlant o oedran ysgol) a'r gefnogaeth ar gyfer addysg ffurfiol pan ofynnwyd iddynt ymateb i'r datganiad bod y BBC yn helpu plant gyda'r hyn maen nhw'n ei ddysgu yn yr ysgol/coleg.

Y tu hwnt i'r arolwg penodol hwn, yn ddiweddar mae'r Llywodraeth a'r byd addysg wedi amlygu pwysigrwydd sicrhau bod pobl o bob oed yn datblygu sgiliau cyffredinol y gellir eu trosglwyddo, a fydd yn eu helpu i ddysgu. Mae'r BBC yn bwriadu gwneud cyfraniad pwysig ac unigryw at y gwaith hwn.

## Ymateb y tîm rheoli i'r bylchau

Mae strategaeth wybodaeth y BBC, ynghyd â *Delivering Creative Future*, fframwaith chwe blynedd tîm rheoli'r BBC ar gyfer cyflawni dibenion y BBC, yn amlinellu strategaeth i ymateb i'r heriau uchod.

Dyma brif flaenoriaethau'r strategaeth hon.

### Dysgu anffurfiol a meithrin gwybodaeth

- Cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau ffeithiol, gan helpu cynulleidfaoedd i feithrin eu gwybodaeth.
- Chwilio am ffyrdd o sicrhau bod rhaglenni ffeithiol yn ddifyr i gynulleidfaoedd amrywiol, boed yn brif ffrwd neu'n arbenigol.

- Cryfhau effaith y cynnwys trwy fuddsoddi mwy mewn darpariaeth aml-lwyfan sy'n galluogi cynulleidfaoedd i archwilio'u diddordebau a meithrin eu gwybodaeth ymhellach.
- Lleihau nifer y rhaglenni er mwyn canolbwyntio ar ansawdd arloesedd a'r hyn sy'n unigryw amdanynt. Bydd y gostyngiad hwn yn targedu rhaglenni rhannau ymylol o'r amserlen, ac y mae cynulleidfaoedd yn pennu llai o werth iddynt.

**Dysgu ffurfiol**
Ers i'r broses o gyflwyno BBC Jam gael ei atal ym mis Mawrth 2007, mae'r BBC wedi bod yn ystyried cyfeiriad strategol y portffolio dysgu ffurfiol i blant yn ofalus er mwyn manteisio'n llawn ar werth y ddarpariaeth gyfredol a'i hategu yn ôl yr angen.

Amlinellir y strategaeth gyffredinol a gymeradwywyd mewn egwyddor gan Ymddiriedolaeth y BBC o dan flaenoriaeth 3 isod. Dyma'r prif themâu:

- Canolbwyntio ar sicrhau bod y grwpiau oedran i gyd yn meithrin sgiliau hanfodol, gan adeiladu ar y gweithgareddau cyfredol i bobl ifanc yn eu harddegau a'u hategu gyda darpariaeth newydd i blant iau.
- Parhau i gefnogi plant ac athrawon mewn perthynas â gofynion y gwahanol gwricwla cenedlaethol.
- Gwella'r ddarpariaeth sgiliau hanfodol i oedolion, gan bwysleisio llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

## Cyflawni blaenoriaethau'r diben

**1 Ysgogi dysgu anffurfiol ar draws ystod lawn o bynciau a materion i bob cynulleidfa**
Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC alluogi pobl i ddysgu am lawer o bynciau mewn ffyrdd a fydd yn hwylus iddynt, yn darparu adloniant ar eu cyfer ac yn eu herio."

Yn unol â'r prif flaenoriaethau ar gyfer y strategaeth dysgu anffurfiol a chynyddu gwybodaeth a amlinellir uchod, bydd y BBC, trwy ei chynnyrch ffeithiol, yn:

- Helpu cynulleidfaoedd i wella'u sgiliau llythrennedd trwy amrywiaeth eang o bynciau ffeithiol, gan gynnwys byd natur, gwyddoniaeth a meddygaeth i feithrin llythrennedd gwyddonol; hanes, celf, cerddoriaeth a chrefydd i feithrin llythrennedd diwylliannol; y broses ddemocrataidd, busnes, y gyfraith a materion defnyddwyr i feithrin llythrennedd dinesig; rhianta, iechyd, maetheg a garddio i feithrin llythrennedd bywyd; a dealltwriaeth o sut a pham mae'r cyfryngau'n cael eu gwneud a'u cyflwyno fel y maent i feithrin llythrennedd y cyfryngau.
- Mynd y tu hwnt i ddarparu ffeithiau moel, gan eu dewis, eu trefnu a'u dehongli i ennyn trafodaeth a gwella dealltwriaeth. Trwy wneud hyn, bydd y BBC yn darparu llwyfan lle gall arbenigwyr ac ysgolheigion blaenllaw gyflwyno eu syniadau a dehongli eu pynciau.
- Ceisio denu cynulleidfaoedd prif ffrwd a chraidd at ei chynnyrch ffeithiol sy'n cynyddu gwybodaeth, gan greu rhaglenni ag apêl eang, gan gynnwys rhaglenni ffeithiol o bwys sy'n cwmpasu'r amrywiaeth lawn o bynciau ar wasanaethau fel BBC One a BBC Two. Defnyddir talentau ac agweddau modern sy'n gallu denu cynulleidfaoedd cyfoes. Caiff pynciau difrifol eu trin mewn ffyrdd hygyrch ac ystyriol, a defnyddir technegau cynhyrchu a thechnolegau newydd i ymestyn ffiniau rhagoriaeth greadigol.
- Darparu tymhorau o raglenni sy'n ymwneud â phynciau neu themâu penodol, gyda chynnwys ategol ar wahanol sianeli neu lwyfannau.
- Datblygu'r berthynas rhwng BBC Two a BBC Four, gan sicrhau bod rhaglenni'r naill yn amlwg yn ategu'r llall o ran pwnc ac agwedd.
- Defnyddio technegau drama ac adloniant fel dull amgen o ddenu cynulleidfa'r brif ffrwd at bynciau ffeithiol ac at y profiad o gynyddu gwybodaeth.

Y tu hwnt i'r brif ffrwd, y nod fydd cyflwyno cynnyrch ffeithiol â mwy o ddyfnder a her, wedi'i dargedu'n fanylach:

- Ar wasanaethau fel BBC Four a Radio 4, bydd arweinwyr yn y maes yn cael llwyfannau i esbonio a dehongli syniadau cymhleth, yn aml mewn meysydd pwnc mwy difrifol fel gwyddoniaeth gymwysedig, athroniaeth, moeseg a'r celfyddydau aruchel. Gellir ystyried materion unigol yn fwy trylwyr, naill ai mewn rhaglenni unigol neu mewn cyfres neu dymor o raglenni cysylltiedig.
- Dylai gwasanaethau cerddoriaeth y BBC ehangu gorwelion pobl a'u hannog i fynd y tu hwnt i'r brif ffrwd trwy ddarparu amrywiaeth o gerddoriaeth, gan gynnwys cerddoriaeth newydd llawn her, gyda gwybodaeth ategol i'r rheini sydd am ddysgu mwy.
- Gellir hefyd rhoi sylw i bynciau o safbwynt rhyngwladol, yn ogystal ag o safbwynt cynulleidfa'r DU.
- Bydd rhai gwasanaethau'n ceisio denu cynulleidfaoedd targed penodol i gynyddu eu gwybodaeth mewn ffyrdd ac mewn pynciau sydd fwyaf perthnasol iddynt. Er enghraifft, bydd gwasanaethau i bobl ifanc yn eu harddegau neu oedolion ifanc fel BBC Three a Radio 1 yn mynd i'r afael â phynciau perthnasol fel iechyd, delwedd gorfforol, gyrfaoedd a chyllid personol. Anogir plant i ddysgu mwy am y byd o'u cwmpas trwy raglenni drama, comedi ac adloniant, yn ogystal â rhaglenni ffeithiol ar CBBC, a bydd plant cyn oedran ysgol yn cael cyfle i ddysgu trwy chwarae ar CBeebies.
- Er mwyn gwella'r profiad o'r cynnwys y mae'r BBC yn ei gynnig, darperir profiad aml-lwyfan rhyng-gysylltiedig a fydd yn helpu cynulleidfaoedd i archwilio'u diddordebau a chynyddu eu gwybodaeth ymhellach a chryfhau effaith y rhaglenni ffeithiol.
- Bydd y BBC yn buddsoddi mwy mewn rhannau o bbc.co.uk sy'n ymwneud â chynyddu gwybodaeth. Bydd hyn yn rhoi ffynonellau gwybodaeth newydd i gynulleidfaoedd ac yn eu galluogi i wneud cyfraniad mwy gweithredol yn eu perthynas â'r BBC, ac archwilio pynciau'n fwy manwl a chyfrannu eu dehongliadau a'u safbwyntiau eu hunain.
- Bydd yr adrannau Newyddion a Ffeithiol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r broses o feithrin gwybodaeth. Gall straeon newyddion annog cynulleidfaoedd i fynd i chwilio am ragor o wybodaeth. Bydd Newyddion a Ffeithiol yn gweithio gyda'i gilydd i fanteisio ar gyfleoedd i gysylltu gwybodaeth olygyddol ar-lein mewn pynciau fel newid yn yr hinsawdd, gwyddoniaeth, iechyd, crefydd a'r celfyddydau.

**2 Denu cynulleidfaoedd at weithgareddau sydd wedi'u targedu i sicrhau canlyniadau penodol sydd o fudd i gymdeithas**

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC ddenu cynulleidfaoedd at gynnyrch sy'n dwyn manteision i'r DU drwyddi draw. Gallai cynnyrch o'r fath, er enghraifft, hybu byw'n iachach neu annog diddordeb brwd yn hanes, treftadaeth ac amgylchedd y DU."

Bydd y BBC yn parhau i gynnal tymhorau a gweithgareddau dysgu a gweithredu cymdeithasol gyda'r nod o sicrhau manteision cymdeithasol i unigolion a'r DU gyfan.

Mentrau golygyddol ar y cyd fydd gweithgareddau o'r fath yn aml, wedi'u harwain gan gynnyrch y gwasanaethau prif ffrwd ond yn cynnwys amrywiaeth eang o lwyfannau'r BBC, gan gynnwys y rheini sy'n canolbwyntio ar gynulleidfaoedd penodol fel pobl ifanc neu bobl mewn gwahanol rannau o'r DU. Defnyddir gwahanol ddulliau i ymgysylltu â phob math o gynulleidfa, a bydd y BBC yn ymgynghori â grwpiau cynrychiolwyr i sicrhau bod y dulliau ymgysylltu mwyaf priodol yn cael eu defnyddio a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol grwpiau targed, yn enwedig pobl anabl a'r rheini o gymunedau lleiafrifol ethnig.

Bydd y BBC yn gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol i ddarparu gweithgareddau gweithredu cymdeithasol sy'n cael effaith wirioneddol a hirdymor a darparu cyfleoedd ymarferol ar gyfer datblygiad personol neu gymdeithasol. Bydd gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd penodol yn canolbwyntio ar bynciau sy'n arbennig o berthnasol i'r cynulleidfaoedd hynny – er enghraifft, bwlio i blant a phobl ifanc yn eu harddegau neu rianta i oedolion ifanc.

Mae'n allweddol i fod yn rhyngweithiol ac yn hygyrch er mwyn annog cynulleidfaoedd i gymryd rhan yn y math hwn o weithgarwch. Bydd ganddynt elfen ar-lein ganolog gref, gan alluogi cynulleidfaoedd i wneud eu cyfraniadau eu hunain a chofnodi eu llwybrau dysgu eu hunain neu'r manteision cymdeithasol yn eu hardaloedd.

**3 Hybu a chefnogi nodau addysgol ffurfiol i blant a phobl ifanc a chefnogi addysg oedolion, yn enwedig pan fydd honno'n gysylltiedig â datblygu sgiliau hanfodol**

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC gynnal ei swyddogaeth allweddol sef darparu cynnyrch addysgol ffurfiol i bawb yn y DU, gan gynnwys sgiliau ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd. Dylai'r BBC ddarparu amgylchedd diogerl ar gyfer dysgu, yn enwedig i blant."

Mae gweithgareddau arfaethedig y BBC mewn perthynas â chefnogi dysgu ffurfiol wedi'u rhannu'n dri phrif gategori:

- Cefnogi'r gwaith o feithrin y sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar bobl o bob oed, gan gynnwys sgiliau fel llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gwybodaeth a dealltwriaeth, rheoli gwybodaeth, sgiliau meddwl, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, myfyrio, creadigrwydd, gweithio gydag eraill a sgiliau gweithle.
- Cymorth a dargedir at ddysgu'r cwricwlwm, gan gynnwys deunyddiau i ddysgwyr, athrawon a rhieni.
- Gweithgareddau mwy penodol mewn perthynas ag amcanion dysgu penodol, gan gynnwys dinasyddiaeth a llythrennedd y cyfryngau a helpu talwyr ffi'r drwydded – yn enwedig y rheini a allai deimlo'u bod yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol – i fod yn ddinasyddion gweithredol a gwybodus.

Bydd gweithgareddau'r BBC o ran cefnogi sgiliau'n parhau i adeiladu ar yr elfennau allweddol canlynol:

- Adnoddau i blant cyn oedran ysgol trwy CBeebies. Bydd bron popeth a ddarlledir ar gyfer y gynulleidfa hon yn cynnwys yr Amcanion Dysgu Cynnar. Gyda deunyddiau ategol ar gyfer rhieni neu ofalwyr, bydd yr adnoddau a ddarlledir a'r rhai rhyngweithiol ar-lein yn darparu profiad cyffredin.
- Mentrau ar-lein i bobl ifanc yn eu harddegau trwy bbc.co.uk, gyda ffocws cyfredol penodol ar ddoniau creadigol, gwyddoniaeth, dylunio ac entrepreneuriaeth.
- Mentrau sgiliau ar-lein i oedolion trwy bbc.co.uk, ym maes darllen ac ysgrifennu, rhifedd a llythrennedd digidol.

Wrth geisio cefnogi pobl a phlant o bob oedran i feithrin sgiliau, mae'r BBC yn cynnig adnoddau newydd ar gyfer plant 6–10 oed**,** gan adeiladu ar yr hyn a ddarlledir ac a ddarperir ar-lein ar hyn o bryd ar gyfer y gynulleidfa hon.

Mae cynnwys sy'n berthnasol i ofynion y cwricwlwm yn cynnwys:

- Adnoddau i gefnogi plant wrth iddyn nhw adolygu ar gyfer arholiadau ysgol.
- Adnoddau clyweled i athrawon. Bydd mwy a mwy o'r rhain ar gael ar gais gyda chyfleusterau chwilio manwl, gyda chlipiau o raglenni'r BBC sy'n ymwneud â gofynion penodol y cwricwlwm.
- Adnoddau sy'n berthnasol i wahanol gwricwla mewn gwahanol rannau o'r DU, gan gynnwys cynnwys mewn gwahanol ieithoedd brodorol.

Mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi cymeradwyo cyfeiriad strategol cyffredinol y portffolio dysgu, mewn egwyddor – gan gynnwys y cynnydd yn y cyfraniad at ddysgu sgiliau – yn amodol ar unrhyw gymeradwyaeth reoleiddio angenrheidiol.